Design & Consultancy for natural and built assets

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG O'R FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL

## CRYNODEB ANNHECHNEGOL:
Arfarniad o Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040: Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (gan gynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol)

CHWEFROR 2021

‘**Cymru’r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040**’ fydd enw ein fframwaith datblygu cenedlaethol cyntaf pan gaiff ei gyhoeddi. Cafodd yr asesiad hwn ei baratoi cyn ei gyhoeddi ac mae’n defnyddio’r enw ‘fframwaith datblygu cenedlaethol’ a’r ‘FfDC’ drwyddo. Er crisialu’r ystyr, cymerir bod pob cyfeiriad at y fframwaith datblygu cenedlaethol yn golygu **Cymru’r Dyfodol Cymru – y cynllun cenedlaethol 2040**.

O 1 Ionawr 2021 yng Nghymru bydd safleoedd Natura 2000 yn cael eu galw’n ‘safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol’. Mae’r asesiad hwn wedi bod yn cael ei baratoi ers 2016 ac mae’n defnyddio’r termau safleoedd Natura 2000 sy’n adlewyrchu’r derminoleg gywir ar y pryd. Er mwyn eglurder, ystyrir bod y cyfeiriadau at safleoedd Natura 2000 yn y ddogfen hon yn golygu safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.

# RHEOLI FERSIYNAU

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Gwiriwr | Newidiadau |
|---|---|---|---|---|
| 0.1 | Mawrth 2020 | Joseph Evans<br>Sarah Tooby | David Hourd | - |
| 0.2 | Mehefin 2020 | Joseph Evans<br>Sarah Tooby | Sarah Tooby | Diweddariadau i Bolisi P10 |
| 0.3 | Awst 2020 | Joseph Evans | David Hourd | Adolygiad yn sgil diwygiadau i Bolisi P22 a'r angen am dai |
| 0.4 | Ionawr 2021 | Sarah Tooby/ Ben Twiss | David Hourd | Newidiadau yn dilyn newidiadau i'r FfDC yn dilyn craffu gan y Senedd. |

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig Chwefror 2021 ar gyfer Llywodraeth Cymru (y "Cleient") yn unol â'r telerau ac amodau penodi, (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis Consulting UK**. ("Arcadis") at y dibenion a bennir yn y Penodiad.  Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff unrhyw berson(au) ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath gan unrhyw drydydd parti arall.

# CYNNWYS


DIBEN Y CRYNODEB ANNHECHNEGOL.......................................................... 1

BETH YW'R FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL?..............................1

BETH YW'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG?............................ 1

AMSERIAD, A GOBLYGIADAU COVID-19..........................................................1

PROSESAU'R ACI A'R FFDC HYD YN HYN......................................................2

SUT Y CYNHALIWYD YR ACI..................................................................3
Fframwaith yr ACI........................................................................ 3

ARFARNIAD YR FFDC........................................................................ 4
Canlyniadau'r Arfarniad - Canlyniadau'r FfDC.......................................5

Canlyniadau'r Arfarniad - Materion ac Opsiynau (a aseswyd Tachwedd 2017).........................5

Canlyniadau'r Arfarniad - Yr Opsiwn a Ffefrir (a aseswyd Chwefror 2018)................................6

Argymhellion.....................................................................................7

CANLYNIADAU'R ARFARNIAD - FFDC DRAFFT (ASESWYD MAI 2019)..........7

CANLYNIADAU'R ARFARNIAD - STRATEGAETH OFODOL............................ 7

CANLYNIADAU'R ARFARNIAD – FFDC DRAFFT GAN GYNNWYS NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R POLISÏAU A DIWEDDARIADAU, AR ÔL CRAFFU GAN Y SENEDD.................................................................... 8

SUT Y MAE'R ACI WEDI DYLANWADU AR YR FFDC.........................................13

OSGOI, LLEIHAU NEU LINIARU EFFEITHIAU NEGYDDOL A SICRHAU CYMAINT O EFFEITHIAU CADARNHAOL Â PHOSIBL - CRYNODEB O'R ARGYMHELLION.................................................................................13

CANFYDDIADAU'R ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD A SUT Y MAE'R RHAIN WEDI CYFRANNU AT YR ASESIAD........................................................ 14

MONITRO EFFEITHIAU SYLWEDDOL ..............................................................14

# Diben y Crynodeb Annhechnegol

1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi, mewn iaith annhechnegol, Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad ACI. Y 'Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)' oedd yr enw blaenorol ar hwn. At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfeirir at Cymru'r Dyfodol fel 'FfDC'. Bydd unrhyw fersiynau o'r ACI (y Datganiad Ôl-gyhoeddi) yn y dyfodol yn newid y cyfeiriad hwn i 'Cymru'r Dyfodol'.

# Beth yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?

1.1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r FfDC i roi cyd-destun gofodol ar gyfer datblygu yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Defnyddir yr FfDC i arwain buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod buddsoddiadau a datblygiadau – boed yn rhai mawr neu fach o ran maint – yn cyfrannu at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru a lles cymunedau. Bydd yr FfDC, felly, yn dylanwadu ar sut y bydd cymunedau'n datblygu dros yr 20 mlynedd nesaf ac mae'n bwysig bod gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y gallai hyn eu cael wrth i'r FfDC gael ei ddatblygu. Dylid darllen yr FfDC ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru ac nid yw'n ailadrodd Polisi Cynllunio Cymru, sy'n darparu polisi cynllunio ar sail Cymru gyfan. Mae'r FfDC yn disodli Cynllun Gofodol Cymru.

# Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

1.1.3 Proses o arfarnu cynnwys yr FfDC, wrth ei ysgrifennu, yw'r ACI, yn erbyn cyfres o amcanion cynaliadwyedd er mwyn helpu i hybu datblygiad cynaliadwy a phrofi'r FfDC cyn iddo ddod i rym. Cynhaliwyd yr ACI trwy gydol y gwaith o baratoi'r FfDC ac mae wedi gallu rhoi argymhellion i wella perfformiad datblygu cynaliadwy cymharol yr FfDC. Mae'r ACI yn cynnwys asesiadau statudol a rhai sy'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru ac mae'n bodloni gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol. Mae'r ACI yn un lefel uchel ac mae'n ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol yr FfDC. Diben hwn yw helpu i sicrhau bod defnyddiau tir yng Nghymru yn y dyfodol, dros yr 20 mlynedd nesaf, yn gynaliadwy.

1.1.4 Un o'r 'ffyrdd o weithio' sy'n ffurfio rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru yw'r angen i arddel dull integredig i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae'r ACI, felly, yn cynnwys nifer o asesiadau statudol ac anstatudol eraill. Mae hyn yn caniatáu inni fod â darlun mwy cytbwys o'r goblygiadau a'r cyfleoedd o ran cynaliadwyedd sy'n codi o'r FfDC. Mae'r ACI yn cyfuno'r asesiadau canlynol, ac yn bodloni eu gofynion deddfwriaethol yn llawn: yr Arfarniad Cynaliadwyedd; Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA); Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015); Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant; Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Pholisi Adnoddau Naturiol (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Mae'r ACI hefyd yn ystyried gofynion yr asesiadau anneddfwriaethol sy'n ymwneud â Phrawfesur Gwledig; Effeithiau Iechyd; Newid Hinsawdd; a Datblygiad Economaidd.

1.1.5 Mae cyfuno'r asesiadau hyn yn sicrhau yr ymgymerir â dull cydweithredol ar wahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydnabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn modd cyson a thryloyw.

# Amseriad, a goblygiadau Covid-19

1.1.6 Gwnaed y gwaith o ddrafftio'r ACI dros y bum blynedd diwethaf. Yn 2020, tarwyd y DU gan bandemig byd-eang Covid-19 gan arwain at effaith ddigynsail ar economi a phatrymau teithio Cymru ac iechyd a llesiant y boblogaeth. Awgrymwyd y gallai'r pandemig arwain at newidiadau tymor hwy i'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau, yn enwedig o ran ein gwerthfawrogiad o fannau awyr agored, ein newidiadau i batrymau teithio a'n patrymau gweithio. Ar ôl i'r pandemig ddod i ben, bydd gan y newid i agweddau pobl at weithgareddau awyr agored a gweithio o bell y potensial o ddod yn fwy parhaol.

1.1.7 Er na chyfeirir yn benodol at Covid-19 yn yr ACI, mae'r ACI yn cynnig arfarniad o'r mesurau polisi yn Cymru'r Dyfodol (y FfDC) gan ddefnyddio fframwaith arfarnu a seiliwyd ar ddealltwriaeth eglur o sut i sicrhau lleoedd mwy cynaliadwy. Mae'r fframwaith yn cynnwys Amcanion ACI yn gysylltiedig, er enghraifft, â mynediad at fannau agored, hyrwyddo teithio llesol, gwelliannau i gyfathrebu digidol a llai o ddibyniaeth ar geir. Mae hyn wedi sicrhau bod Cymru'r Dyfodol yn cynnwys amrywiaeth o fesurau polisi y bwriedir iddynt gefnogi a hyrwyddo'r themâu hyn, a fydd yn rhan allweddol o ddatblygu cynaliadwy, ac adferiad yn ôl yr angen, i'r dyfodol.

1.1.8 Mae'r ACI wedi'i seilio ar dystiolaeth a thueddiadau sylfaenol. Er bod 2020 yn annodweddiadol o ran llawer o dueddiadau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, ystyrir bod y flwyddyn hon yn anomaledd yn hytrach na 'normal newydd', fell mae'r tueddiadau hirdymor a nodwyd yn yr ACI yn dal i fod yn sail briodol ar gyfer arfarnu. Gallai newidiadau a welwyd yn ystod y pandemig i batrymau teithio, teithio llesol, effeithiau o weithio gartref, canol trefi, anghydraddoldebau iechyd a llesiant, anfanteision economaidd-gymdeithasol, a gwerth mannau hamdden awyr agored, gael effaith barhaus y tu hwnt i'r pandemig. Os felly, mae Cymru'r Dyfodol (y FfDC) yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r tueddiadau hyn a mynd i'r effaith ag unrhyw effeithiau negyddol posibl. Bydd effeithiau a thueddiadau'r dyfodol o'r pandemig yn cael eu hadlewyrchu yn y dystiolaeth a'r gwaith monitro. Nid yw proses yr ACI yn sefydlog a bydd fersiynau o'r Arfarniad a Cymru'r Dyfodol yn y dyfodol yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i dueddiadau hirdymor sy'n datblygu. Mae hefyd yn wir y bydd gan y Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol y cyfle i addasu i unrhyw newid tystiolaeth sy'n codi.

## Prosesau'r ACI a'r FfDC hyd yn hyn

1.1.9 Dechreuodd y gwaith o baratoi ar gyfer yr FfDC â phroses o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod gaeaf 2016/17. Yng ngwanwyn 2017, gwnaed rhagor o waith i nodi materion ar gyfer yr FfDC ar ôl y digwyddiadau ymgysylltu. Ar y cam hwn, datblygwyd syniadau cychwynnol ar gyfer amcanion ac opsiynau strategol posibl yr FfDC.

1.1.10 Dechreuodd cam cyntaf yr ACI (Cwmpasu) hefyd ar yr adeg hon. Roedd cam Cwmpasu'r ACI yn cynnwys y tasgau canlynol:

- Cwmpas a lefel manylder;
- Cynlluniau, polisïau, rhaglenni a mentrau perthnasol;
- Gwybodaeth berthnasol am yr amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yng Nghymru, ar raddfa genedlaethol, ar hyn o bryd a'r amodau hyn a ragwelir yn y dyfodol;
- Nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol; a
- Chyflwyno fframwaith o Amcanion a chwestiynau i hwyluso gwneud penderfyniadau, er mwyn gallu arfarnu'r FfDC yn ei erbyn.

1.1.11 Cofnodwyd y tasgau hyn yn yr Adroddiad Cwmpasu ACI Drafft y cynhaliwyd ymgynghoriad arnynt rhwng 28 Ebrill a 21 Gorffennaf 2017. Yn ogystal â hyn cynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid yn gynnar ym mis Mai 2017. Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwmpasu ACI Drafft i Gyfoeth Naturiol Cymru a Cadw er mwyn iddynt nodi eu sylwadau. Fe'i hanfonwyd hefyd at ymgyngoreion statudol y tu allan i Gymru a allai gael eu heffeithio'n anuniongyrchol gan yr FfDC, sef Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Historic England; yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach fel y Royal Society for the Protection of Birds (RSPB). Llywiwyd yr Adroddiad Cwmpasu Terfynol (Ebrill 2018) gan yr ymgysylltiad a'r cyfranogiad hwn gan randdeiliaid.

1.1.12 Gan ddefnyddio'r sylwadau o'r ymgynghoriad, dechreuodd gwaith yn ystod haf/hydref 2017 i ddatblygu ymhellach Amcanion ac Opsiynau Strategol amlinellol ar gyfer yr FfDC. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cychwynnol, lefel uchel ar yr adeg hon.

1.1.13 Ym mis Tachwedd 2017, cynhaliwyd ACI ar amcanion ac opsiynau strategol cychwynnol yr FfDC a rhoddwyd canlyniadau hwn i dîm yr FfDC er mwyn dylanwadu ar y gwaith o'u datblygu ymhellach. Cynhaliwyd ACI ar y fersiwn nesaf o amcanion ac opsiynau a chynhaliwyd Sgriniad Asesiad

Rheoliadau Cynefinoedd Cychwynnol yn ystod gaeaf 2017/18. Cofnodwyd canfyddiadau'r rhain mewn Adroddiad ACI Dros Dro a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y fersiwn Materion ac Opsiynau o'r FfDC rhwng 30 Ebrill 2018 a 23 Gorffennaf 2018.

1.1.14 Roedd yr ACI ar y cam hwn yn cynnwys y tasgau canlynol:

- Profi amcanion y cynllun o'u cymharu ag Amcanion yr ACI;
- Rhagweld a gwerthuso yr effeithiau (gan gynnwys effeithiau cronnol ac eilaidd) opsiynau'r cynllun a'r opsiynau amgen; ac
- Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau negyddol a sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl.

1.1.15 Mireiniwyd yr ACI ymhellach ac fe'i diwygiwyd i ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

1.1.16 Yn seiliedig ar yr uchod, lluniwyd FfDC Drafft

1.1.17 Roedd yr FfDC Drafft yn darparu arfarniad o'r polisïau diwygiedig, yn ogystal â'r gwahanol opsiynau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried wrth ddrafftio'r polisïau arfaethedig. Roedd cyfres o argymhellion yn cyd-fynd â chanlyniadau'r arfarniad a fyddai, pe byddent yn cael eu mabwysiadu, yn helpu i wella cynaliadwyedd y polisïau. Ymgynghorwyd ar yr FfDC Drafft, a'r dogfennau ategol gan gynnwys yr ACI a oedd yn cyd-fynd ag ef, rhwng 7 Awst 2019 – 15 Tachwedd 2019.

1.1.18 Cynorthwyodd yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar yr FfDC Drafft i fireinio'r FfDC ymhellach ac maent wedi cynorthwyo i ddylanwadu ar yr ACI. Mae'r Adroddiad ACI llawn hwn yn nodi yn fanwl y modd y mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi bod â rhan bwysig wrth lywio'r ACI.

1.1.19 Paratowyd y FfDC Drafft Gan Gynnwys y Newidiadau Arfaethedig gan Llywodraeth Cymru wedyn. Diweddarwyd yr ACI ymhellach i adlewyrchu'r fersiwn hon o'r FfDC.

1.1.20 Cam olaf paratoi'r FfDC oedd Craffu gan y Senedd. Yn dilyn hyn, cynigiwyd newidiadau i'r FfDC. Adlewyrchwyd y rhain ers hynny yn yr ACI hwn, proses a gofnodir yn y Datganiad Ôl-gyhoeddi.

# Sut y cynhaliwyd yr ACI

1.1.21 Ysgogwyd cwmpas daearyddol yr ACI gan gwmpas daearyddol yr FfDC h.y. Cymru gyfan. Er y bydd yr FfDC yn cael ei ddiweddaru bob pum mlynedd, y bwriad yw iddo fod yn gymwys hyd at 2040 ar ôl ei gyhoeddi yn 2021. Adlewyrchwyd yr amserlen hon yn yr ACI. Bwriad yr ACI yw galluogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy i gael eu hymwreiddio yn yr FfDC o'r cychwyn cyntaf.

## Fframwaith yr ACI

1.1.22 Cynnyrch allweddol o Gam Cwmpasu'r ACI oedd Fframwaith yr ACI. Fframwaith yr ACI yw'r prif offeryn asesu a ddefnyddir yn ystod yr ACI ac mae'n cynnwys cyfres o 17 o Amcanion ACI yn cwmpasu materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a nodwyd yn ystod Cam Cwmpasu yr ACI. Rhestrir Amcanion yr ACI yn Nhabl NTS-1. Mae'r Amcanion ACI hyn wedi'u defnyddio i brofi perfformiad yr FfDC drwy arfarnu pob elfen o'r FfDC am ei effeithiau tebygol ar bob Amcan ACI. Er enghraifft, ar gyfer Amcan ACI 1, mae pob polisi yn yr FfDC wedi'i arfarnu ar gyfer y graddau y byddai'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol o ran annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes.

1.1.23 Mae'r Fframwaith ACI yn caniatáu ar gyfer dull integredig o asesu effeithiau'r FfDC drwy ddod â'r asesiadau effaith amrywiol a restrir uchod yn Adran 1.1.4 at ei gilydd mewn un fframwaith arfarnu.

*Tabl NTS-1: Amcanion yr ACI yn Fframwaith yr ACI, er mwyn arfarnu'r FfDC o'i gymharu ag ef*

| Rhif | Amcan yr ACI |
|---|---|
| 1 | Annog a chefnogi gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd am oes |
| 2 | Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru |
| 3 | Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd |
| 4 | Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy |
| 5 | Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol |
| 6 | Creu cyfleoedd lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni |
| 7 | Creu cyfleoedd i annog y gwaith o ddiogelu a gwella ansawdd aer |
| 8 | Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u safleoedd |
| 9 | Creu'r cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru |
| 10 | Cyfrannu at leihau a rheoli risg o lifogydd |
| 11 | Creu'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd a nifer nodweddion ac adnoddau dŵr |
| 12 | Creu'r cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a'r gallu cynaliadwy i gael gafael ar nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau sylfaenol |
| 13 | Creu'r cyfleoedd i wella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb |
| 14 | Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy, diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd |
| 15 | Creu'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella gwahaniaethau lleol ein tirweddau, ein trefluniau a'n morluniau |
| 16 | Creu'r cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth |
| 17 | Creu'r cyfleoedd i ddefnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid |

## Arfarniad yr FfDC

1.1.24 Mae'r FfDC wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- 1. Cyflwyniad;
  - *Mae'n nodi beth yw'r FfDC, sut y mae'n cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru a strwythur system gynllunio Cymru.*
- 2. Cymru: Trosolwg

   - *Mae'n nodi trosolwg o Gymru a rhai o'r tueddiadau demograffig, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol allweddol; ac mae'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd sydd wedi llywio'r FfDC*
- 3. Pennu a chyflawni ein huchelgeisiau;
   - *Mae'n cynnwys yr 11 o Ganlyniadau'r FfDC sy'n ddatganiad ar y cyd o'r sefyllfa y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i Gymru fod ynddi mewn 20 mlynedd ac yn nodi manylion adolygiad yr FfDC.*
- 4. Opsiynau Strategol a Gofodol: Strategaeth Ofodol yr FfDC;
   - *Mae'n nodi'r strategaeth ofodol a'i pholisïau. Y strategaeth ofodol fydd y fframwaith arweiniol o ran lle bydd y pwyslais ar newid ar raddfa fawr a'r datblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol dros yr 20 mlynedd nesaf.*
- 5. Y Rhanbarthau.
   - *Mae'n nodi polisïau'r FfDC ar gyfer pedwar rhanbarth Cymru: Y Gogledd, Y Canolbarth, Y De-orllewin a'r De-ddwyrain.*

1.1.25 Mae ACI yn broses ailadroddol ac mae gwneuthurwyr y cynllun wedi cael gwybod am ganlyniadau'r arfarniad ar sawl cam yn ystod datblygiad yr FfDC. Yn gyffredinol, mae'r ACI wedi darparu arfarniadau o'r elfennau canlynol:

- Sut y byddai'r amgylchedd yng Nghymru yn debygol o newid dros amser yn absenoldeb yr FfDC;
- Canlyniadau'r FfDC, sef yr amcanion bras y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno eu cyflawni drwy'r FfDC;
- Gwahanol opsiynau ar gyfer dosbarthiad gofodol cyffredinol datblygiadau a pholisïau yn yr FfDC;
- Pob elfen o FfDC Drafft 2019;
- Pob elfen o FfDC Drafft 2020 Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig; a
- Phob diwygiad i'r FfDC, ar ôl Craffu gan y Senedd.

## Canlyniadau'r Arfarniad – Canlyniadau'r FfDC

1.1.26 Amcanion yr FfDC yw'r amcanion bras y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni drwy'r FfDC. Mae'r rhain wedi'u hasesu i weld a ydynt yn cyd-fynd ag Amcanion yr ACI. Trafodir canlyniadau'r rhain yn y prif Adroddiad ACI ac maent wedi'u cyflwyno'n llawn yn Atodiad C.

## Canlyniadau'r Arfarniad – Materion ac Opsiynau (a aseswyd Tachwedd 2017)

1.1.27 Mae'r Adroddiad ACI Dros Dro yn cofnodi arfarniad Opsiynau Amgen a'r Opsiwn a Ffefrir gan yr FfDC. Datblygwyd pedwar Opsiwn Amgen ar gyfer yr FfDC ynghyd ag Opsiwn Meincnod sy'n cynnwys peidio â llunio FfDC. Roedd pob opsiwn yn destun ACI ym mis Tachwedd 2017. Ceir disgrifiad llawn o Opsiynau Amgen yr FfDC yn Atodiad C o'r Adroddiad ACI Dros Dro[1]. I grynhoi, yr opsiynau hyn oedd:

- Opsiwn Amgen 1 – Opsiwn yn canolbwyntio ar dwf yn y meysydd cryfaf o'r farchnad
- Opsiwn Amgen 2 – Opsiwn yn canolbwyntio ar greu cymunedau cryf ledled Cymru gyfan
- Opsiwn Amgen 3 – Opsiwn yn cyflawni amcanion datgarboneiddio a newid hinsawdd
- Opsiwn Amgen 4 – Opsiwn yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

---

[1] Adroddiad ACI Dros Dro, ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf [Gwelwyd 17/02/21]

- Opsiwn Meincnod – Peidio â Pharatoi'r FfDC

### Opsiwn Amgen 1

1.1.28 Ar y cyfan, gwnaeth Opsiwn 1 berfformio'n waeth na'r opsiynau eraill o'u hasesu yn erbyn y gyfres lawn o amcanion ACI. Nid oedd yr opsiwn hwn wedi'i ysgogi'n gryf gan egwyddorion datblygiad cynaliadwy a byddai twf economaidd yn fwy o flaenoriaeth na'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig a allai arwain at effeithiau negyddol yn yr ardaloedd hyn.

### Opsiwn Amgen 2

1.1.29 Roedd perfformiad Opsiwn Amgen 2 yn sylweddol well nag Opsiwn Amgen 1. Roedd yr opsiwn yn canolbwyntio ar anghenion lleol ar draws ardal ehangach, a all leihau anghydraddoldeb ac arwain at gynnydd mewn buddion ar draws yr holl gymunedau. Ni ragwelwyd effeithiau negyddol cryf ar gyfer yr opsiwn hwn.

### Opsiwn Amgen 3

1.1.30 Arweiniodd yr asesiad o Opsiwn 3 hefyd at ragweld effeithiau cadarnhaol cryf. Byddai'r opsiwn yn rhagweld y risgiau o newid hinsawdd i sicrhau bod patrymau datblygu yn y dyfodol yn ystyried, yn cael eu llywio, ac yn datblygu cydnerthedd i'r risgiau hyn. Byddai'r opsiwn yn darparu modd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y lleoliadau mwyaf addas ac yn darparu fframwaith i gefnogi ei gyflawniad. Ni ragwelwyd effeithiau negyddol cryf ar gyfer yr opsiwn hwn.

### Opsiwn Amgen 4

1.1.31 Rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol cryf ar gyfer saith o amcanion yr ACI yn yr asesiad o Opsiwn Amgen 4. Roedd yr opsiwn yn cynnwys pwyslais sylweddol ar gydnerthedd i newid hinsawdd. Roedd yn cydnabod sut y mae'r amgylchedd naturiol yn sylfaen i gynaliadwyedd economaidd ac roedd ganddo bwyslais cryf iawn ar ddiogelu'r amgylchedd.

### Gwneud Dim

1.1.32 Ni ragwelwyd effeithiau cryf ar gyfer yr opsiwn 'gwneud dim'. Byddai Cynllun Gofodol Cymru a pholisïau a strategaethau eraill yn parhau i fod ar waith heb yr FfDC. Ond mae'r tueddiadau, megis amddifadedd uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd y de a rhai o drefi arfordirol y gogledd, yn debygol o barhau, gan arwain at gymysgedd o effeithiau a allai fod yn gadarnhaol ac yn negyddol heb weithredu'r FfDC.

## Canlyniadau'r arfarniad – Yr Opsiwn a Ffefrir (a aseswyd fis Chwefror 2018)

1.1.33 Yn dilyn asesiad yr Opsiynau a Ffefrir, mireiniodd tîm Llywodraeth Cymru Opsiynau'r FfDC, a datblygwyd drafft cyntaf o'r Opsiwn a Ffefrir. Yna defnyddiwyd adborth o'r ACI o'r Opsiwn a Ffefrir hwn i fireinio fersiwn derfynol o'r Opsiwn a Ffefrir.

1.1.34 Datblygwyd 'Yr Opsiwn a Ffefrir' ar bum thema, gan adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10:

- Creu Lleoedd;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

1.1.35 Nid ystyriwyd bod Opsiynau Amgen 1 – 4 yn gwbl ffafriol gan fod pob un yn dangos canlyniadau negyddol i raddau amrywiol ac ni fyddent yn cyflawni'r datblygiad cynaliadwy cytbwys sy'n ofynnol. Datblygodd Llywodraeth Cymru yr Opsiwn a Ffefrir, felly, drwy gyfuno buddion pob Opsiwn Amgen â'i gilydd gan hefyd liniaru'r effeithiau negyddol posibl. Rhagwelodd yr ACI o'r Opsiwn a Ffefrir yn gynnar yn 2018 effeithiau cadarnhaol cryf ar chwech o amcanion yr ACI, ac ni ragwelwyd effeithiau negyddol cryf.

1.1.36 Ar y cyfan, byddai Opsiwn a Ffefrir 2018 wedi bod yn debygol o gyfrannu tuag at ddiogelu a gwella tirweddau; morluniau; a safleoedd a chynefinoedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn genedlaethol gan hefyd gryfhau seilwaith gwyrdd newydd mewn mannau ledled Cymru. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai gan y gofyniad arfaethedig am welliannau i'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol ac ymestyniadau iddo y potensial i arwain at gynnydd mewn traffig yn yr hirdymor, gan arwain at effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â hyn, fel gwaethygu llygredd sŵn yn y de-ddwyrain. Gallai datblygu dinas-ranbarthau ac ardaloedd twf waethygu hyn ymhellach. Byddai prosiectau seilwaith sylweddol, fel at ddibenion trafnidiaeth neu ynni, hefyd wedi bod yn risg i dirweddau naturiol. Ond mae'n debygol y gellid lliniaru'r rhain i ryw raddau ar sail lefel y prosiect.

## Argymhellion

1.1.37 Er y rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol cryf ar gyfer dangosyddion cymdeithasol ac economaidd, ystyriwyd drwy'r ACI y gellid bod wedi cryfhau'r potensial i'r FfDC gyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol yn benodol. Er mwyn gwella'r potensial i'r Opsiwn a Ffefrir gyfrannu at amcanion yr ACI, nodwyd nifer o argymhellion, a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru. Cofnodir yr argymhellion hyn a'r modd y'u hystyriwyd yn y tabl arfarnu ar gyfer yr Opsiwn a Ffefrir yn Atodiad B. Defnyddiwyd yr adborth o'r ACI o'r Opsiwn a Ffefrir wedi hynny i fireinio'r fersiwn derfynol o'r Opsiwn a Ffefrir ar y pryd ac ymgynghorwyd ar hwn ochr yn ochr â'r Adroddiad ACI Dros Dro (Ebrill 2018).

# Canlyniadau'r arfarniad – FfDC Drafft (a aseswyd fis Mai 2019)

1.1.38 Yn dilyn sawl cylch o arfarniadau, argymhellion ac ymgynghoriadau, paratowyd FfDC Drafft gan Lywodraeth Cymru. Paratowyd polisïau'r FfDC Drafft wedi'u paratoi i gyflawni Canlyniadau'r FfDC a Strategaeth Ofodol yr FfDC. Arfarnwyd FfDC Drafft Gorffennaf 2019 (a aseswyd fis Mai 2019), gan gynnwys ei Strategaeth Ofodol a'r 33 o Bolisïau am eu heffeithiau tebygol yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Cynhaliwyd yr arfarniadau hyn ac ymgynghorwyd arnynt rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2019 ynghyd â'r FfDC Drafft.

1.1.39 Cyflwynir canlyniadau arfarniad llawn y Strategaeth Ofodol a Pholisïau'r FfDC Drafft yn Atodiad D ac E Adroddiad yr ACI.

1.1.40 Mae'r Strategaeth Ofodol a gynigiwyd yn yr FfDC Drafft wedi ei ddwyn ymlaen gyda rhai diwygiadau a chaiff ei gynnig yn yr FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig. Darperir crynodeb o ganfyddiadau asesiad y Strategaeth Ofodol isod.

1.1.41 Adolygwyd a diwygiwyd Polisïau'r FfDC Drafft gan ystyried ymatebion yr ymgynghoriad a'r dystiolaeth berthnasol ddiweddaraf i ffurfio'r 36 o bolisïau arfaethedig yn yr FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig.

# Canlyniadau'r Arfarniad - Strategaeth Ofodol

1.1.42 Byddai disgwyl i'r Strategaeth Ofodol a gynigir yn yr FfDC achosi effeithiau cynaliadwyedd cadarnhaol yn bennaf. Ar y cyfan, byddai disgwyl i'r strategaeth helpu i hwyluso hygyrchedd gwell a mwy o gapasiti yn y gwasanaethau addysg ac iechyd ledled Cymru. Byddai'r strategaeth hefyd yn hwyluso mynediad gwych at fannau agored a chefn gwlad i bobl newydd, sy'n bwysig ar gyfer lles corfforol a lles meddwl. Dylai'r gefnogaeth ar gyfer twf economaidd sylweddol a thai newydd sy'n diwallu anghenion helpu i leihau tlodi a digartrefedd, a dylai olygu bod gan bobl o bob cefndir mewn llawer o ranbarthau Cymru fod â ffyrdd gwell ac ansawdd uchel o fyw'n iach. Byddai'r strategaeth yn debygol o helpu i gyfrannu at dwf economaidd sylweddol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Mae'n debygol y bydd hwb sylweddol i'r amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth mewn rhanbarthau ledled Cymru, a hygyrchedd y cyfleoedd hyn i ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran cyflogaeth ar hyn o bryd. Byddai disgwyl i'r strategaeth ofodol arfaethedig helpu i sicrhau bod anghenion tai a nodwyd yn cael eu diwallu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

1.1.43 Byddai'r dull arfaethedig yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r datblygiad newydd tuag at ardaloedd trefol presennol a dylai hyn alluogi datblygiad mwy cynaliadwy sy'n hwyluso bywydau lefel carbon is i bobl

yn sgil y mynediad da at ddulliau o drafnidiaeth gyhoeddus a'r pellterau byrrach y byddai angen eu teithio i ddefnyddio gwasanaethau ac amwynderau allweddol.

1.1.44 Gallai canolbwyntio datblygiad newydd yn yr ardaloedd hyn arwain hefyd at leihad yn y risg o lygredd amgylcheddol mewn ardaloedd mwy gwledig. Byddai disgwyl i ddatblygiad mewn trefi a dinasoedd presennol allu rheoli a gwneud defnydd mwy effeithlon a chynaliadwy o adnoddau naturiol, yn enwedig priddoedd, yn sgil y cyfleoedd i ddefnyddio safleoedd tir llwyd, adeiladau presennol a deunyddiau a ailddefnyddir, gan arwain at effeithiau cadarnhaol.

1.1.45 Mae'n debygol y byddai'r strategaeth yn helpu i wella diwylliant Cymru i ryw raddau yn bennaf yn sgil y camau diogelu i ardaloedd gwledig lle mae lleoedd a gweithgareddau diwylliannol a thraddodiadol yn amlwg. Yn yr un modd, mae'r effeithiau arfaethedig ar yr iaith Gymraeg yn debygol o fod yn eithaf cyfyngedig.

1.1.46 Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar rhanbarth o Gymru. Yn y rhanbarthau hyn ceir risg y byddai lefel y datblygiadau arfaethedig yn arwain at gynnydd yn y risg o lifogydd. Dylid cydnabod y gallai lleoli datblygiadau yn y prif drefi a dinasoedd gyfyngu ar yr effeithiau hyn gan fod digon o gyfleodd i ddefnyddio safleoedd maes glas a gwella presenoldeb seilwaith gwyrdd.

## Canlyniadau'r Arfarniad – Polisïau'r FfDC Drafft gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig a diweddariadau, ar ôl Craffu gan y Senedd

1.1.47 Yn dilyn craffu gan y Senedd, cynigiwyd nifer o newidiadau i'r FfDC. Adlewyrchwyd y rhain ers hynny yn yr ACI hwn, proses sydd wedi ei chofnodi yn y Datganiad Ôl-gyhoeddi. Nodir mai dau newid sgorio yn unig a gofnodwyd, o ran asesu P6, gan gynyddu'r sgôr tymor canolig a hirdymor o niwtral i fân gadarnhaol, yn erbyn yr amcan tai. Nid yw hyn wedi effeithio'r crynodeb o'r asesiadau, sy'n adlewyrchu effeithiau rhagfynegol sylweddol.

1.1.48 Byddai disgwyl i fersiwn derfynol polisïau'r FfDC Terfynol (ar ôl Craffu gan y Senedd) gael effaith niwtral neu gadarnhaol ar Amcanion cymdeithasol ac economaidd yr ACI sy'n gysylltiedig â gwella addysg, iechyd, yr economi, cyflogaeth, cysylltedd, cydlyniant cymdeithasol a thai. Nodwyd effeithiau mwy cymysg ar gyfer Amcanion yr ACI sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys ynni ac allyriadau tŷ gwydr, ansawdd aer, y risg o lifogydd, dŵr, tirweddau a threfluniau, treftadaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, yn ogystal ag adnoddau naturiol. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhain, nid yw'n amlwg a fyddai'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn gwrthbwyso ei gilydd. Mewn llawer o achosion mae'r effeithiau andwyol yn ymwneud â'r cynnydd yn y defnydd o adnoddau ac allyriadau yn sgil datblygiad newydd. Yn nodweddiadol mae datblygiad newydd yn cynnwys, er enghraifft, ychydig o gynnydd yn y defnydd lleol o geir, dŵr ac ynni, y tir a gymerir neu newid i'r treflun o amgylch neu gymeriad y dirwedd. Mae'r polisïau yn yr FfDC yn ceisio darparu fframwaith i sicrhau cyn lleied â phosibl o'r effeithiau hyn, neu eu lleihau, gan hefyd hybu datblygiad cynaliadwy er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd y wlad.

1.1.49 Nodwyd effeithiau a allai fod yn negyddol sylweddol yn yr hirdymor ar gyfer polisi P10, yn bennaf oherwydd y byddai'n annog ac yn cefnogi cynnal a chadw maes awyr Caerdydd a Phyrth Strategol eraill gan y byddai disgwyl i'r rhain barhau i fod yn ffynonellau sylweddol o nwyon tŷ gwydr yn sgil symudiadau yn yr awyr ac ar y môr.

1.1.50 Ar gyfer pob polisi, ystyriodd Llywodraeth Cymru opsiynau amgen rhesymol eraill gan gynnwys dull gwneud dim (h.y. dim polisi). Mae'r arfarniadau o'r opsiynau a ffefrir wedi eu gosod ochr yn ochr â'r arfarniadau o'u hopsiynau amgen rhesymol, a hynny er mwyn gallu eu cymharu'n gyflym. Bu canlyniadau'r asesiadau hyn o gymorth i'r gwneuthurwyr Cynllun wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch pa opsiynau polisi i fynd ar eu trywydd, eu diwygio neu eu gwrthod.

1.1.51 Ceir crynodeb o'r asesiad o bolisïau'r FfDC Terfynol (ar ôl Craffu gan y Senedd) yn Nhabl NTS-2.

*Tabl NTS-2: Crynodeb o'r asesiadau o bolisïau'r FfDC Terfynol (ar ôl Craffu gan y Senedd)*

| Crynodeb o Ganlyniadau'r Asesiadau o Bolisïau'r FfDC Terfynol (ar ôl Craffu gan y Senedd) |
|---|
| **Addysg**<br>*Amcan ACI 1: Annog a chefnogi gwelliannau i gyflawniad addysgol pob grŵp oedran a phob sector o gymdeithas er mwyn cynorthwyo i wella cyfleoedd bywyd* |
| Nododd yr asesiadau o bolisïau'r FfDC ar ddarpariaeth addysg a chyfleoedd i ddysgu sgiliau ar gyfer holl bobl Cymru effeithiau cadarnhaol yn bennaf. Rhagwelwyd y byddai gan y polisïau effeithiau cadarnhaol neu ddibwys, ac ni chofnodwyd unrhyw sgorau negyddol. Dros amser, ar gyfer llawer o'r polisïau, rhagwelwyd y byddai'r effeithiau hyn yn cynyddu mewn maint ac yn dod yn sylweddol gadarnhaol yn yr hirdymor.<br>Ar y cyfan, byddai disgwyl i bolisïau'r FfDC, fel cyfuniad, gael effaith gronnol sylweddol gadarnhaol o ganlyniad i welliannau i gyfleusterau addysg presennol a'u cysylltedd gwell ar gyfer yr holl bobl. Byddent hefyd yn cyfuno i gyflawni effeithiau cronnol cadarnhaol drwy gyflogaeth a thwf economaidd sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgu sgiliau mewn lleoliadau hygyrch ar gyfer cymunedau ledled Cymru. |
| **Iechyd**<br>*Amcan* ACI 2: *Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru* |
| Cofnododd yr asesiadau o bolisïau'r FfDC effeithiau cadarnhaol *yn bennaf* ar Amcan yr ACI i wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldeb iechyd.<br>Ar y cyfan, byddai disgwyl i'r polisïau yn y FfDC gyflawni effeithiau cadarnhaol cronnol sylweddol ar yr amcan o wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol yng Nghymru yn sgil cyfleoedd cyflogaeth newydd, lleihau anghydraddoldeb a thlodi, gwella'r seilwaith trafnidiaeth, gwella gallu pobl i gael gafael ar wasanaethau, cyfleusterau a'r amgylchedd naturiol, cyflenwi rhagor o dai fforddiadwy, gwella ansawdd amgylcheddau byw a gwelliannau i gysylltedd digidol a symudol Cymru gan ddarparu buddion ar gyfer gwasanaethau iechyd digidol. |
| **Cyflogaeth a'r Economi**<br>Amcan ACI 3: *Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd*<br>Amcan ACI 4: *Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes cynaliadwy* |
| Cofnododd yr asesiad o bolisïau'r FfDC effeithiau cadarnhaol o gymharu ag Amcanion yr ACI ar gynyddu cyflogaeth ledled y wlad a hybu cynhwysiant economaidd yn ogystal â sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer twf economaidd, amrywiaeth a chystadleurwydd busnes. Cofnodwyd y byddai'r holl bolisïau'n debygol o gael effaith ddibwys neu gadarnhaol ar yr Amcanion hyn, a byddai effaith cadarnhaol yn debygol o fod yn effeithiau uniongyrchol a fydd yn tyfu mewn maint i fod yn sylweddol yn y tymor canolig i'r hirdymor, ac ni chofnodwyd unrhyw effeithiau negyddol.<br>Yn gyffredinol, byddai disgwyl i'r polisïau yn yr FfDC arwain at effeithiau cadarnhaol o ran cynyddu cyflogaeth a hybu twf economaidd cynaliadwy yn sgil gwella hygyrchedd ardaloedd cyflogaeth allweddol, annog datblygiadau economaidd a chyflogaeth newydd sylweddol, diwallu anghenion rhanbarthol yn ogystal â rhai trefol a gwledig a hybu tegwch rhanbarthol. |
| **Y Gymraeg**<br>Amcan ACI 5: *Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol* |
| Cofnododd yr asesiad o bolisïau'r FfDC effeithiau cadarnhaol yn bennaf o ran diogelu a gwella lles y Gymraeg yn y dyfodol. Yn gyffredinol, byddai'r polisïau yn yr FfDC yn debygol o arwain at fân effeithiau cadarnhaol o ran lles y Gymraeg yn sgil annog datblygiad a thwf economaidd newydd, gwella cyfleusterau addysg a hygyrchedd y cyfleusterau hyn ac annog rhagor o dai fforddiadwy. |
| **Ynni a Nwyon Tŷ Gwydr**<br>Amcan ACI 6: *Creu cyfleoedd lle gellir gostwng a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog dylunio cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni* |

| Crynodeb o Ganlyniadau'r Asesiadau o Bolisïau'r FfDC Terfynol (ar ôl Craffu gan y Senedd) |
|---|
| Mae'r angen i greu cyfleoedd lle gellir lleihau a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i annog arbed ynni a chynllunio cynaliadwy yn dod yn fwyfwy pwysig fel yr amlygwyd wrth i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng newid hinsawdd yn 2019. Mae'r FfDC gosod newid hinsawdd wrth graidd ei ddull o gynllunio'r defnydd o dir ac mae'n ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd mor gynaliadwy â phosibl a bod tystiolaeth o hynny.<br><br>Yn gyffredinol, byddai disgwyl i'r polisïau yn yr FfDC arwain at effeithiau cadarnhaol a negyddol o ran arbed ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r FfDC yn gwneud yr ymdrechion gorau i wella cynaliadwyedd datblygiadau newydd yn sylweddol yng Nghymru ac ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd a gyflawnir yn ystod cyfnod yr FfDC yn fwy cynaliadwy o ganlyniad i'r FfDC, nag y byddai pe byddai'n cael ei gyflawni heb fod yr FfDC ar waith. Byddai'r FfDC yn cynorthwyo i ddiogelu a gwella dalfeydd carbon, gwella opsiynau trafnidiaeth yn sylweddol, gwella'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy yng Nghymru gan hefyd annog rhwydweithiau ynni gwres mwy effeithlon ac annog datblygiad mewn lleoliadau sy'n agos i ardaloedd gwasanaethau allweddol gan felly leihau'r angen i deithio. Gallai hyn gael ei wrthbwyso i raddau cyfyngedig gan allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau sy'n gysylltiedig â Phyrth Strategol Cymru, yn ogystal â'r cynnydd yn y defnydd o ynni a symudiadau pobl a achosir gan y datblygiad a gynigir yn yr FfDC ar gyfer pob rhanbarth o Gymru. |
| **Llifogydd**<br><br>Amcan ACI 7: Cyfrannu at leihau a rheoli risg o lifogydd |
| Er bod yr FfDC yn gwneud yr ymdrechion gorau i wella cynaliadwyedd datblygiadau newydd yng Nghymru ac i leihau ei gyfraniad tuag at newid hinsawdd a achosir gan bobl, mae'r FfDC hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwella cydnerthedd cymunedau Cymru i effeithiau newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys cydnabod pwysigrwydd rheoli'r risg o lifogydd yn gynaliadwy ar gyfer cymunedau ledled Cymru, gan y credir bod tua 245,000 eiddo yng Nghymru mewn risg o lifogydd. Mae'r risg o lifogydd o bob ffynhonnell yn debygol o newid a chynyddu dros amser yn sgil newid hinsawdd, ac mae tywydd eithafol a stormydd hefyd yn debygol o gynyddu dros amser. Heblaw am lifogydd, mae gwella cydnerthedd cymunedau ledled Cymru i'r newid hinsawdd yn egwyddor sydd wedi ei hymwreiddio yn yr holl bolisïau yn yr FfDC, yn enwedig pan fo'r FfDC yn ceisio diogelu a gwella seilwaith gwyrdd.<br><br>Yn gyffredinol, cofnodwyd bod gan y polisïau yn yr FfDC amrywiaeth o wahanol effeithiau ar yr Amcan hwn. Mae effeithiau datblygiad newydd yn bennaf yn ddibynnol ar ddosbarthiad a gweithrediad datblygiad o ran y risg o lifogydd. Yn gyffredinol, disgwylir y byddai datblygiad yn cydymffurfio â chyfraith cynllunio ac yn osgoi tir â'r lefel o risg o lifogydd y byddai'r math hwnnw o ddatblygiad yn anaddas ar ei gyfer. Fodd bynnag, o ystyried maint datblygiad newydd efallai na fyddai'n bosibl osgoi datblygu ar dir sydd â risg o lifogydd ym mhob achos. Ceir hefyd risg y byddai datblygiad mewn rhai lleoliadau yn arwain at golli llystyfiant uwchben y ddaear a phriddoedd hydraidd, gan ei ddisodli ag arwynebau caled, anhydraidd, gan felly newid maint a dosbarthiad y risg o lifogydd yn lleol. |
| **Ansawdd Aer**<br><br>Amcan ACI 8: *Creu'r cyfleoedd i annog y gwaith o ddiogelu a gwella ansawdd aer* |
| Mae'r asesiadau o bolisïau'r FfDC o'u cymharu â'r Amcan ansawdd aer o greu cyfleoedd i annog y gwaith o ddiogelu a gwella ansawdd aer rhywfaint yn gymysg, ond nodwyd mwy o effeithiau cadarnhaol nag effeithiau negyddol.<br><br>Yn gyffredinol, byddai'r polisïau yn yr FfDC yn debygol o gyflawni effeithiau cronnol cadarnhaol a negyddol. Mae'r FfDC yn ceisio annog, cefnogi a hwyluso datblygiad economaidd, preswyl a strategol newydd a fyddai â risgiau llygredd cysylltiedig. Gallai effaith eilaidd camau adeiladu, meddiannu a gweithredu'r datblygiadau hyn ledled Cymru hefyd arwain at gynnydd yn y defnydd o geir yn sgil y twf economaidd a thwf y boblogaeth. Mae'r FfDC hefyd yn cefnogi cynnal a chadw'r Pyrth Strategol, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd, a allai beri risgiau llygredd aer. |
| **Adnoddau Dŵr**<br><br>Amcan ACI 9: *Creu cyfleoedd i annog y gwaith o ddiogelu a gwella ansawdd aer* |
| Cofnodwyd canlyniadau cymysg yn yr asesiadau o bolisïau'r FfDC o'u cymharu ag Amcan yr ACI o greu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ansawdd a nifer nodweddion ac adnoddau dŵr. Ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r datblygiad a'r twf sylweddol a anogir yn yr FfDC yn achosi cynnydd yn y defnydd o ddŵr ar gyfer cartrefi newydd a busnesau newydd. Fodd bynnag, mae'r lleoliadau a dargedir ar gyfer y datblygiad hwn yn rhai trefol yn bennaf, lle mae'r risg i |

| |
|---|
| ansawdd crynofeydd dŵr naturiol megis afonydd, llynnoedd neu'r arfordir yn fwy cyfyngedig. Byddai diogelu a gwella seilwaith gwyrdd hefyd yn cynorthwyo i ddiogelu a gwella ansawdd cronfeydd dŵr lleol yn sgil y swyddogaeth bwysig sydd gan lystyfiant a phriddoedd yn y cylch dŵr. Ar yr un pryd, gallai fod risg y bydd cynnydd yn nwysedd datblygiadau mewn ardaloedd trefol o bosibl yn effeithio ar ansawdd dŵr o ganlyniad i gynnydd mewn dŵr gwastraff. |
| **Mynediad**<br><br>Amcanion ACI 10: *Creu'r cyfleoedd i wella cysylltedd cymunedau a'r gallu cynaliadwy i gael gafael ar nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau sylfaenol* |
| Mae angen i bobl Cymru allu cael gafael cynaliadwy ar nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau sylfaenol, a hynny ar gyfer pob grŵp. Cofnodwyd bod gan y polisïau yn yr FfDC effeithiau cadarnhaol a negyddol yn hynny o beth, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol. Byddai'r polisïau'n cyfuno i wella yn sylweddol yr hyn a gynigir gan drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae trafnidiaeth gyhoeddus a siwrneiau effeithlon yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael cynaliadwy ar nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau. Byddai'r buddsoddiad hwn â phwyslais hefyd yn cynorthwyo i gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau mewn lleoliadau hygyrch sydd ar gynnig i bobl leol. Mae P16 yn ceisio annog cynllunio rhanbarthol ledled Cymru a byddai hyn yn cynorthwyo i sicrhau y diwellir anghenion lleol o ran mynediad a darpariaeth gwasanaethau. Byddai'r FfDC yn debygol o arwain at welliannau cronnol yng nghysylltedd symudol a digidol yn yr ardaloedd â'r angen mwyaf. Darperir cyfran gynyddol o anghenion pobl ac ymadweithio cymdeithasol trwy ymadweithio ar-lein felly byddai disgwyl i'r FfDC gynorthwyo i ddarparu'r modd pwysig hwn o gysylltedd ar gyfer cymunedau ledled Cymru. |
| **Cydlyniant Cymdeithasol**<br><br>Amcan ACI 11: *Creu'r cyfleoedd i wella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb* |
| Cofnododd yr asesiadau o bolisïau'r FfDC effeithiau cadarnhaol neu ddibwys yn unig o ran gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb. Mae'n debygol y byddai llawer o'r effeithiau cadarnhaol hyn yn cynyddu mewn maint i ddod yn sylweddol gadarnhaol yn yr hirdymor. Byddai disgwyl i'r polisïau arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran helpu i greu cyfleoedd i gynyddu cydlyniant cymdeithasol ledled Cymru ac i annog rhagor o gydraddoldeb. Byddai cynllunio a pholisïau rhanbarthol yn cynorthwyo i sicrhau y nodir a bodlonir anghenion rhanbarthol a lleol, gan gynnwys o ran yr hyn sydd ei angen i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb lleol, a byddai gwelliannau mawr i seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus Cymru yn helpu i sicrhau bod pobl o bob cefndir yn gallu cael gafael cyfartal ar nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau. |
| **Tai**<br><br>Amcan ACI 12: *Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy, diogel o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a nodwyd* |
| Cofnododd yr asesiad o bolisïau'r FfDC effeithiau cadarnhaol neu ddibwys yn unig o ran sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd i ddarparu tai diogel, fforddiadwy sydd o ansawdd da sy'n bodloni anghenion a nodwyd. Ni ragwelwyd unrhyw effeithiau negyddol o'u cymharu â'r Amcan hwn ar gyfer unrhyw bolisi. Disgwylir y byddai'r FfDC yn cyflawni effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran sicrhau y diwellir anghenion datblygu cenedlaethol, rhanbarthol, trefol a gwledig, gan gynnwys anghenion tai. Byddai'r amrywiol bolisïau rhanbarthol yn cynorthwyo i sicrhau y ceir datblygiad preswyl newydd ym mhob rhanbarth o Gymru sy'n bodloni anghenion tai rhanbarthol ac sy'n cyfrannu at angen cenedlaethol. |
| **Tirluniau a Threfluniau**<br><br>Amcan ACI 13: *Creu'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella gwahaniaethau lleol ein tirluniau, ein trefluniau a'n morluniau* |
| Mae'r effaith debygol polisïau'r FfDC ar dirluniau a threfluniau yn gymysg yn bennaf gan ei fod yn gallu dibynnu ar leoliad penodol defnyddiau tir arfaethedig yn gysylltiedig â'r tirlun neu'r treflun o amgylch. Byddai'r FfDC yn cyfeirio llawer o'r datblygiad newydd tuag at ardaloedd trefol, gan gynnwys Ardaloedd Twf, neu aneddiadau mawr presennol a byddai hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod datblygiad newydd wedi'i leoli mewn ac yn ymyl ffurf adeiledig bresennol. Byddai diogelu a gwella seilwaith gwyrdd yn cynorthwyo hefyd i ddiogelu ac o bosibl gwella cymeriad yn sgil datblygiad newydd. Fodd bynnag, mae ystod o bolisïau yn annog ac yn cefnogi lefelau sylweddol o ddatblygiad newydd ac mae risg mewn rhai achosion y gallai'r datblygiad hwn newid cymeriad a hynodrwydd y treflun neu'r tirlun lleol. |

| |
|---|
| **Treftadaeth Ddiwylliannol**<br><br>Amcan ACI 14: *Creu'r cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau hanesyddol a'u lleoliadau* |
| Mae effeithiau polisïau'r FfDC a gofnodwyd yn yr asesiadau ar ddiogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol yn gymysg. Effeithiau cadarnhaol neu ddibwys yn unig a ragwelwyd o ran gwarchod yr amgylchedd hanesyddol ond rhagwelwyd rhai effeithiau negyddol posibl o ran gwarchod asedau treftadaeth sensitif. Byddai llawer o'r datblygiad newydd wedi ei gyfeirio tuag at ardaloedd trefol, gan gynnwys Ardaloedd Twf neu aneddiadau mawr presennol a byddai hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod datblygiad newydd wedi'i leoli mewn ac yn ymyl ffurf adeiledig bresennol. Gallai hyn gynorthwyo i osgoi effeithiau posibl datblygiad ar safle asedau treftadaeth mewn ardaloedd gwledig gan hefyd ddarparu cyfleoedd i wella trefluniau drwy adfywio safleoedd tir llwyd. Fodd bynnag, mae lleoliadau trefol fel arfer yn gartref i fwy o asedau hanesyddol nac ardaloedd gwledig ac, er bod datblygiad newydd mewn ardal adeiledig bresennol yn annhebygol o gael effaith sylweddol, ceir risg y bydd rhywfaint o newid i safle asedau hanesyddol yma. Mae polisïau sy'n diogelu a gwella seilwaith gwyrdd yn lleihau cymaint â phosibl y risg y bydd datblygiad newydd yn effeithio'n negyddol ar ddiwylliant Cymru neu asedau treftadaeth. Mae'r effeithiau felly yn ddibynnol ar weithrediad, yn bennaf. |
| **Diwylliant Cymru**<br><br>Amcan ACI 15: *Creu cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru* |
| Byddai'r FfDC yn cynorthwyo i hwyluso buddsoddiad newydd mewn ardaloedd pwysig ar gyfer gweithgareddau a mannau diwylliannol Cymru a gallai gynorthwyo i'w diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu gwerthfawrogi. Gallai rhai datblygiadau beri risg i weithgareddau diwylliannol Cymru, megis datblygiad newydd mewn lleoliadau gwledig yn effeithio ar ffermio defaid gwledig, ond mae achosion o hyn yn debygol o fod yn brin iawn. |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br><br>Amcan ACI 16: *Creu'r cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth* |
| O ran creu cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, rhagwelwyd effeithiau cadarnhaol a negyddol gan yr asesiadau. Gallai datblygiadau newydd beri risg i asedau a dynodiadau bioamrywiaeth sensitif, megis yn sgil cynnydd cronnol yn sgil amhariad a achosir gan ymwelwyr, cynnydd mewn llygredd a niwed uniongyrchol a achosir gan ddatblygiad ar safle tir glas. Mae'n annhebygol y gellir osgoi neu liniaru effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth yn llwyr ym mhob achos. Mae'n ymddangos hefyd y byddai effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth (a'r amgylchedd hanesyddol) wedi'u pwysoli o'u cymharu â buddion economaidd datblygiad ac yn hynny o beth derbynnir y bydd rhaid eu cydbwyso wrth gymryd penderfyniadau. Ar yr un pryd, byddai disgwyl i bolisïau'r FfDC gyfuno i gyflawni gwelliannau sylweddol i fioamrywiaeth a geoamrywiaeth Cymru gan o bosibl gynorthwyo i gyflawni enillion net bioamrywiaeth, gan ddiogelu asedau ecolegol a'u cysylltu yn un ecosystem cydlynol. Mae rhwydwaith ecolegol cydlynol ledled Cymru yn hanfodol er mwyn galluogi bywyd gwyllt i symud yn rhydd ac osgoi creu ynysoedd arunig o gynefinoedd a rhywogaethau wedi'u 'rhannu o natur'. Byddai Coedwig Genedlaethol yn debygol o fod yn ardal o werth bioamrywiaeth sylweddol sy'n darparu cynefin addas ar gyfer amrywiaeth eang o rywogaethau a warchodir gan wella cysylltedd.<br><br>Yn benodol berthnasol i'r Amcan ACI hwn y mae canfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, a bennodd na fyddai effaith negyddol ar unrhyw safle Natura 2000/ Ramsar site yn sgil y FfDC (gweler isod i gael rhagor o wybodaeth am yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd). |
| **Adnoddau Naturiol**<br><br>Amcan ACI 17: *Creu'r cyfleoedd i ddefnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid* |
| O ran creu cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau naturiol, a'u rheoli'n gynaliadwy, gan ystyried eu buddion a'u gwerth cynhenid, nododd yr asesiad gymysgedd o effeithiau yn codi o bolisïau'r FfDC. Roedd yr effeithiau yn bennaf yn gysylltiedig â pha un ag y byddai'r polisi yn arwain at ddatblygiad newydd ar safle tir llwyd neu dir glas. Y safleoedd tir glas yn aml yw'r safleoedd  o bwysigrwydd adnoddau naturiol y mae angen eu diogelu, megis priddoedd, tir mawnog a choetir. Byddai disgwyl i ddosbarthiad datblygiadau a gynigir yn yr FfDC gynorthwyo i leihau faint o dir glas a fyddai'n cael ei golli i'r datblygiad newydd. |

Byddai'r FfDC yn cynorthwyo i wella effeithlonrwydd rhwydweithiau ynni Cymru gan hefyd gynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy, gan hwyluso cyfleoedd i ddatblygu ar tir llwyd a diogelu a gwella seilwaith gwyrdd. Ar yr un pryd, byddai polisïau yn debygol o gyfuno i annog datblygiadau newydd ledled Cymru sy'n dibynnu ar ddefnyddio adnoddau naturiol er mwyn eu cyflawni, megis mwynau ar gyfer adeiladu. Ni fyddai pob datblygiad newydd yng Nghymru a gefnogir gan y FfDC ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, ac felly, i ryw raddau, gellid disgwyl colli rhywfaint o dir glas. Byddai datblygiad newydd hefyd yn debygol o arwain at rywfaint o lygredd aer yn ystod y cam adeiladu ac, yn dibynnu ar y math o ddatblygiad, hefyd yn ystod ei gam gweithredu megis llygredd a achosir gan gynnydd lleol yn y defnydd o geir. Mae'n debygol mai effaith gronnol yr holl ddatblygiadau a gefnogir ac a anogir gan yr FfDC yw rhywfaint o gynnydd yn y defnydd o ddŵr, oherwydd ei ddefnydd gan fusnesau yn ogystal a'r defnydd preswyl. Yn ychwanegol at y defnydd o ddŵr, gallai fod cynnydd yn y risg o lygredd neu halogi cronfeydd dŵr, a'i amlygrwydd. Er bod yr FfDC yn ceisio annog cynnydd yng nghyfran cynhyrchu a defnyddio ynni sy'n dod o ffynonellau adnewyddadwy, nid yw'n glir ac o bosibl y mae'n annhebygol y bydd hyn yn cyfateb i'r cynnydd yn y defnydd o ynni sy'n gysylltiedig â'r lefelau o dwf y mae'r FfDC yn ceisio ei gefnogi a'i annog nac yn rhagori ar y defnydd hwnnw.

## Sut y mae'r ACI wedi dylanwadu ar yr FfDC

1.1.52 Mae arbenigwyr ACI wedi gweithio'n agos gyda'r tîm cynllunio yn Llywodraeth Cymru ers yn gynnar yn y broses o lunio'r FfDC. Trwy broses ailadroddol, mae arbenigwyr ACI wedi bwydo canlyniadau ac argymhellion asesiadau i'r cynllunwyr i gynorthwyo â'u prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn wedi bod â rhan bwysig wrth gynorthwyo'r llunwyr cynllun i ystyried perfformiad cynaliadwyedd gwahanol opsiynau y gallent fod yn ystyried eu cynnwys yn yr FfDC, yn ogystal â gwahanol gamau y gallent ystyried eu mabwysiadu a fyddai'n cynorthwyo i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl neu i leihau cymaint â phosibl neu osgoi effeithiau negyddol.

## Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl

1.1.53 Yn ystod proses ailadroddol yr ACI, mae'r FfDC wedi cynnwys amrywiaeth o argymhellion sydd wedi helpu i wella perfformiad cynaliadwyedd cyffredinol y cynigion FfDC. Trwy gydol yr arfarniadau o bolisïau'r FfDC nodwyd argymhellion ar gyfer pob polisi yn erbyn pob Amcan ACI, pan fo'n briodol, er mwyn helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol ac i helpu i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl.

1.1.54 Mae'n bwysig darllen a deall yr FfDC yng nghyd-destun polisi cynllunio ehangach, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru. Defnyddir yr FfDC i lywio buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod buddsoddiadau a datblygiadau - rhai bach neu fawr - yn cyfrannu at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ac i lesiant cymunedau. Nid yw'r FfDC yn ceisio disodli Polisi Cynllunio Cymru, y dylid ei ddarllen ar y cyd ag ef, gan fod Polisi Cynllunio Cymru yn darparu polisi cynllunio ar sail Cymru gyfan. Golyga hyn y byddai angen i unrhyw ddatblygiad a anogir neu a gefnogir yn y FfDC gydymffurfio â gofynion Polisi Cynllunio Cymru, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau rhanbarthol neu leol sydd mewn grym.

1.1.55 Ar y cyfan, byddai'r polisïau yn hynod debygol o wneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni Amcanion yr ACI. Cofnodwyd y byddai'r FfDC Drafft Gan Gynnwys Newidiadau Arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau hynod gadarnhaol ar Amcanion mwy cymdeithasol ac economaidd yr ACI, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag addysg, iechyd, cyflogaeth, economi, cysylltedd, cydlyniant cymdeithasol, tai a diwylliant. Byddai llawer o'r effeithiau hyn a nodwyd yn debygol o ddod yn sylweddol gadarnhaol dros y tymor canolig i'r hirdymor wrth i effeithiau'r FfDC dyfu dros amser.

1.1.56 Nodwyd effeithiau mwy cymysg ar gyfer wyth o Amcanion yr ACI. Mae'r rhain yn bennaf gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, ansawdd aer, perygl llifogydd, dŵr, tirweddau a threfluniau, treftadaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn ogystal ag adnoddau naturiol. O ran y mwyafrif o'r rhain, nid yw'n eglur a fyddai'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn dadwneud y llall, er y disgwylir y bydd y FfDC yn

helpu i wneud yn siŵr bod datblygiad newydd yng Nghymru yn gynyddol gynaliadwy ac, er bod ansicrwydd yn hyn o beth, mae'n debygol y bydd datblygiad yng Nghymru wedi ei baratoi yn well i osgoi effeithiau niweidiol gan sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl ar yr amgylchedd naturiol o ganlyniad i'r FfDC.

1.1.57 Mae effeithiau niweidiol yn bennaf o ganlyniad i ddatblygiad a thwf newydd yng Nghymru, wedi eu cefnogi a'u hannog gan wahanol bolisïau'r FfDC a fyddai'n debygol o arwain at ryw raddau o gynnydd i ddefnydd ac allyriadau ynni ac adnoddau naturiol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd y bwriedir i'r FfDC gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chyfres ehangach o bolisi gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru a fydd hefyd yn helpu i liniaru effeithiau negyddol ansicr ar y lefel fwy lleol. Ni fwriedir i'r FfDC ailadrodd y polisi hwn.

1.1.58 Lle mae effeithiau negyddol wedi cael ei rhagweld, mae'r ACI wedi cynnig argymhellion a fyddai'n debygol o helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol posibl neu gynyddu effeithiau cadarnhaol, os cânt eu cynnwys yn y polisi dan sylw. Mae argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru wedi bod yn nodwedd allweddol o broses yr ACI o'r cychwyn cyntaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hynod agored i fesurau ar gyfer gwella perfformiad cynaliadwyedd y FfDC ac yn sgil hynny wedi gwneud gwelliannau a diwygiadau i'r FfDC drwy gydol y broses.

## Canfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut y mae'r rhain wedi cyfrannu at yr asesiad

1.1.59 Mae proses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân wedi cyd-fynd â phroses lunio'r FfDC a'i lywio. Mae hyn yn cynnwys Asesiad Priodol. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn broses ailadroddol rhwng arbenigwyr ecolegol a llunwyr cynllun i benderfynu a allai cynllun o bosibl fod ag effeithiau negyddol ar ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel a ddiogelir ar lefel ryngwladol. Gelwir y dynodiadau bioamrywiaeth hyn ar y cyd yn safleoedd Natura 2000/ Ramsar, a cheir sawl un ohonynt yng Nghymru.

1.1.60 Mae Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n cyd-fynd â'r FfDC yn ei gwneud yn glir ei bod, ar y cam lefel uchel iawn hon o'r broses cynllunio datblygiadau yng Nghymru, yn anodd pennu sut y gallai penderfyniadau polisi strategol effeithio ar safleoedd a ddynodir gan Ewrop. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi'u hystyried trwy gydol datblygiad y Cynllun ac felly mae osgoi problemau yn gynnar (a/neu leihau risg) wedi bod yn elfen allweddol o'r broses.

1.1.61 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi nodi'r math o effeithiau a allai godi drwy weithredu'r polisïau ac mae'n amlygu camau lliniaru y byddai angen eu hystyried wrth gynhyrchu cynlluniau haen is. Mae hyn wedi darparu lefel ychwanegol ragofalus o ddiogelwch i safleoedd Natura 2000/Ramsar, ac ystyrir y bydd hyn, a'r gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynlluniau a phrosiectau haen is, yn darparu digon o gamau diogelu i gadarnhau na ragwelir unrhyw effeithiau andwyol ar uniondeb.

## Monitro effeithiau sylweddol

1.1.62 Mae'r ACI wedi nodi effeithiau tebygol yr FfDC ar Amcanion yr ACI dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Nodwyd sicrwydd yr effeithiau hyn hefyd. Fodd bynnag, ceir risg bod effeithiau cynaliadwyedd yr FfDC, gan gynnwys effeithiau polisïau penodol neu effeithiau cronnol polisïau gyda'i gilydd, yn wahanol i'r rhai a ragwelir, er enghraifft yn sgil amgylchiadau na chawsant eu darogan. Mae pandemig Covid-19 hefyd yn creu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y gallai tueddiadau'r dyfodol ddatblygu. Mae monitro effeithiau sylweddol y FfDC o'u cymharu â'r effeithiau a ragwelwyd, felly, yn gydran hanfodol o gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae monitro rheolaidd, felly, yn galluogi awdurdodau perthnasol i newid cynlluniau fel bo angen, pe byddai effeithiau negyddol annisgwyl yn codi neu pe na fyddai effeithiau cadarnhaol disgwyliedig yn codi.

1.1.63 Cyflwynir fframwaith monitro, yn cynnwys yr effeithiau hynny y ceisir eu monitro yn Adroddiad yr ACI sy'n nodi ystod o ddangosyddion i'w monitro yn berthnasol i effeithiau tebygol yr FfDC. Yn ogystal â

monitro i ba raddau y mae'r FfDC yn achosi'r effeithiau a nodir yn yr ACI, mae'r fframwaith monitro yn nodi effeithiau'r FfDC ar y llinell sylfaen amgylcheddol yng Nghymru a gellir cymharu hyn â thueddiadau'r llinell sylfaenol hon yn y dyfodol. Nod y gwaith o fonitro'r FfDC fydd nodi unrhyw effeithiau sylweddol wrth iddynt godi, a ddylai helpu i hysbysu unrhyw ansicrwydd yng nghanfyddiadau'r ACI. Bydd y broses fonitro hefyd yn helpu i hysbysu'r nodweddion sylfaenol wrth i'r FfDC esblygu, ar ôl ei gyhoeddi.

1.1.64 Ar ôl cyhoeddi'r FfDC, bydd Datganiad Ôl-gyhoeddi yn cael ei baratoi, gan gynnwys Datganiad o Fanylion Amgylcheddol, yn cynnig manylion sut y mae proses yr ACI wedi dylanwadu ar ddatblygiad y FfDC, yr effeithiau sylweddol a ragwelir, yn ogystal â'r Fframwaith Monitro.

Arcadis Consulting (UK) Limited

Arcadis Cymru House

Cardiff
CF3 0EY
United Kingdom

**arcadis.com**